# Chwarae Cymru

ADRODDIAD EFFAITH
2017 - 2018



# Adroddiad y Cadeirydd

Rydw i newydd gyrraedd adref wedi taith llawn hiraeth i Gernyw – yn ailymweld â'r holl lefydd yr aethom â'r plant iddyn nhw ar wyliau pan oedden nhw'n fach. Mynd am dro, nofio, tafarndai, tro bach arall, nofio … roedden nhw'n cysgu fel tyrchod, yn hapus eu byd yn gwybod y byddai anturiaethau newydd yfory dan awyr las, ddigwmwl.

Eisteddais ar wal harbwr porthladd pysgota yng Nghernyw, gan geisio anwybyddu'r ddisgynfa erchyll, gan gofio sut byddai'r plant yn llamu oddi ar yr ysgol haearn ac i lawr i'r bylchau rhwng y cychod islaw. Fe fydden nhw'n dod yn ôl i'r wyneb yn chwerthin a phoeri dŵr, weithiau angen ychydig o gysur pan fyddai'r dŵr hallt yn mynd i'w llygaid neu os oedd angen plaster ar friw ar droed, yna i ffwrdd â nhw i aros eu tro gyda gweddill y plant cyn neidio unwaith eto.

Rwy'n cyfeirio at hyn oherwydd i'r rheini ohonom sy'n rhieni, fe gofiwch am yr adeg pryd y bu rhaid i chithau, fel rhiant digon da, daro cydbwysedd rhwng angen eich plentyn i gymryd risg yn erbyn yr angen i ymyrryd pan oedd y risgiau'n bygwth mynd yn rhy fawr. A, gobeithio, yn y broses, bod eich plant wedi tyfu i fyny'n iach, yn gorfforol, yn emosiynol ac yn gymdeithasol trwy ddysgu sut i feistroli eu hofnau yng nghwmni plant eraill. Elfen hanfodol o ddatblygiad plentyn.

A heddiw, rwy'n ysgrifennu'r adroddiad cadeirydd hwn ar gyfer sefydliad sy'n gwneud yn union yr un peth – sy'n cymryd risgiau ac sy'n cefnogi'r rheini sy'n cymryd risg gyda'r plant mentrus yn eu gofal. Rwy'n llawn edmygedd o'r modd y mae staff Chwarae Cymru wedi parhau i arloesi'r angen am fentro iach – a hynny ar bob lefel, a'r buddiannau y maent wedi eu sicrhau yn genedlaethol ac yn rhyngwladol – fel y darllenwch yn y rhestr o gyflawniadau dros y flwyddyn ddiwethaf.

Bob ychydig o fisoedd, bydd y Bwrdd Ymddiriedolwyr yn cwrdd i drafod yr hyn sy'n digwydd yn Chwarae Cymru a'i gynlluniau ar gyfer y dyfodol. Un o'r eitemau sefydlog ar yr agenda yw'r Gofrestr Risg – y peryglon sydd raid eu hwynebu a sut y gallem fynd i'r afael â nhw, fel ariannu, wrth gwrs – diolch i Lywodraeth Cymru am ddangos parch i rôl Chwarae Cymru gyda chefnogaeth ariannol barhaus.

Mae'r risg i'n henw da yn peri pryder ar brydiau. Felly mae risg bob amser. Ond yn union fel y mae rhaid i blant ddysgu cymryd risg os ydyn nhw i ddatblygu, a bod rhaid i rieni a gofalwyr gymryd risg wrth adael iddyn nhw, felly'n union y mae rhaid i Chwarae Cymru fentro wrth eiriol dros yr angen am risg. Allwn ni ddim gofyn i'n plant gymryd risg oni bai ein bod ninnau'n gwneud hynny hefyd. Dim ond bryd hynny y gallan nhw a ninnau wynebu heriau newydd heb gilio y tu ôl i agweddau gwangalon a 'diogelwch yn gyntaf', all ymddangos yn synhwyrol ar y pryd ond sy'n storio helynt i'r dyfodol.

Felly, hir oes i'n plant i neidio i mewn i'r dŵr, hir oes i'r rhieni fydd yn cymeradwyo o'r cyrion neu fydd yn neidio i mewn gyda nhw, a hir oes i sefydliad fel Chwarae Cymru i neidio i mewn, yn drosiadol, hefyd. Pob hwyl ar y mentro am flwyddyn arall!



Dr Mike Shooter CBE
Cadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr Chwarae Cymru

**www.chwaraecymru.org.uk**

# Adroddiad y Cyfarwyddwr

Rydan ni'n 20 oed. Pwy fyddai wedi meddwl, pan wnaethom gofrestru Chwarae Cymru fel elusen ym 1998, y siwrnai fyddai o'n blaenau. Mae ein byd wedi newid cymaint ers hynny.

Ugain mlynedd yn ôl fe wnaethom sylweddoli ar ganlyniadau anfwriadol Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 wrth greu'r hyn oedd yn tyfu'n amgylchedd ofn risg cynyddol. Mae tystiolaeth amlwg bod y llanw wedi troi a bod cydnabyddiaeth gynyddol o'r angen i blant brofi cyfleoedd i gymryd risg – bod budd i bob risg.

Rydym wedi gweld Llywodraeth yng Nghymru sy'n arddangos parodrwydd i gymryd risg, gan fabwysiadu'n fuan iawn bolisi chwarae cenedlaethol cyntaf y byd yn 2002 ac, yn ddiweddarach, ac yn bwysicach fyth, ymatebodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'n galwadau a phasio deddfwriaeth i gefnogi chwarae plant yn 2010. Mae hyn yn gydnabyddiaeth amlwg o bwysigrwydd chwarae a'r hyn y gellid ei wneud i greu amgylchedd ble caiff plant gymaint o gyfleoedd i chwarae a gafodd eu neiniau a'u teidiau-. Mae hon yn agwedd sydd wedi ei heiriol yn 2013 gan Bwyllgor y Cenhedlodd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ei Sylw Cyffredinol Rhif 17 ar Erthygl 31 o Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

### Ac i'r dyfodol …

Mae tystiolaeth o effaith ein hamgylchedd cynyddol segur a'n carwriaeth fawr gyda siwgr wedi bod yn gynyddol amlwg ers degawdau, mae bellach yn ddiamheuol. Bydd pobl yn dweud na allwn ddychwelyd i fyd ein cyndadau, ond pan ddaw'n fater o blentyndod, mewn rhai agweddau, mae rhaid inni. Er budd ein lles i'r dyfodol, mae angen i blant dyfu i fyny mewn amgylchedd ble maen nhw'n rhydd i chwarae'r tu allan – ble fo cydbwysedd yr hyn yr ydym yn ei ystyried yn bwysig ac yn flaenoriaeth yn symud oddi wrth yrwyr ceir i gerddwyr. A ph'run a ydyn ni'n hoffi hynny ai peidio, bydd hyn yn galw am ddeddfu gan y llywodraeth i arwain y newidiadau hyn.

Mae Llywodraeth Cymru – yn Weinidogion, Aelodau'r Cynulliad a swyddogion – i gyd wedi cyfrannu at sicrhau'r newidiadau hyd yma. Dylem ddiolch iddynt, ond dim ond megis dechrau y maen nhw. Mae gwaith sylweddol yn dal i fod ar ôl i'w wneud, i ddadwneud y difrod a'r cyfyngiadau sydd wedi effeithio ar gyfleoedd plant i chwarae mewn mannau cyhoeddus.

Mae Chwarae Cymru'n effro i bryderon plant a rhieni trwy Gymru benbaladr. Er hynny, mae ein gwaith, o'r cychwyn cyntaf, wedi canolbwyntio'n strategol ar gefnogi pobl a mudiadau y mae eu gwaith yn effeithio ar chwarae plant yn hytrach na gweithio'n uniongyrchol gyda phlant. Fel sefydliad bychan, dyma sut yr ydym wedi llwyddo i fod mor effeithlon. Ond, yn 2018 fe wnaethom amrywio mymryn ar y strategaeth hon a lansio ein hymgyrch *Plentyndod Chwareus* – y bwriedir iddi fynd beth o'r ffordd at ddarparu gwybodaeth ac adnoddau'n uniongyrchol i rieni, gofalwyr, neiniau a theidiau a grwpiau lleol i gefnogi cyfleoedd chwarae gartref ac allan yn y gymuned.

Fyddai dim o hyn wedi bod yn bosibl heblaw am ymrwymiad a chefnogaeth staff, ymddiriedolwyr, gwleidyddion, swyddogion y llywodraeth, ffrindiau a chydweithwyr sydd wedi cyfrannu at ein taith, boed hynny trwy gymorth uniongyrchol neu gyfeillgarwch beirniadol.



Mike Greenaway
Cyfarwyddwr Chwarae Cymru

# Cynnwys


2017 - 2018 yn gryno 5

Am Chwarae Cymru 6

Cyflawniadau
- Cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol 7
- Ymgysylltu 8
- Cyhoeddiadau 9
- Gweithwyr proffesiynol hyddysg 10
- Ymholiadau gan y cyhoedd 12
- Cydweithredu'n lleol a chenedlaethol 12
- Partneriaid 14

Adolygiad ariannol – crynodeb 15

Aelodau 16

Cyflawniadau: 1998 - 2018 18

Cynlluniau ar gyfer y dyfodol: 2018 - 2019 20

Bwrdd Ymddiriedolwyr Chwarae Cymru 21

Tîm Chwarae Cymru 21




# 2017 - 2018 yn gryno

**131,800** ymweliad i'r wefan

**1000** o ymholiadau gan y cyhoedd

**92** aelod Chwarae Cymru

*'Mae Chwarae Cymru yn gorff anllywodraethol llawn ffocws sy'n canolbwyntio ar bolisi.'*

Trosglwyddwyd cymwysterau Lefel 2 a 3 i **234** o ddysgwyr

Cyhoeddwyd a dosbarthwyd yn helaeth:

- **2** becyn cymorth
- **2** awgrymiadau anhygoel
- **3** briffiad
- **3** taflen wybodaeth

Adolygwyd **22** o gynlluniau gweithredu a ac adroddiadau cynnydd Digonolrwydd Chwarae awdurdodau lleol

**2781** o bobl sydd â diddordeb mewn chwarae plant wedi derbyn newyddion a gwybodaeth yn rheolaidd



# Am Chwarae Cymru

## Chwarae Cymru yw'r elusen genedlaethol dros chwarae plant.

**Ein gweledigaeth**: Dyfodol ble caiff chwarae ei barchu am ei bwysigrwydd allweddol i blentyndod.

**Ein cennad**: Ymgyrchu dros Gymru chwarae-gyfeillgar a phledio achos hawl pob plentyn i chwarae.

Rydym yn gweithio i gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch angen a hawl plant a phobl ifanc i chwarae ac i hybu arfer dda ar bob lefel o lunio penderfyniadau ac ym mhobman ble y gallai plant chwarae. Rydym yn darparu cyngor ac arweiniad i gefnogi pob un sydd â diddordeb mewn, neu sy'n gyfrifol am ddarparu ar gyfer, chwarae plant fel y bydd Cymru, un dydd, yn wlad ble rydym yn cydnabod ac yn darparu'n dda ar gyfer anghenion chwarae pob plentyn.

Ers mis Hydref 2014 (hyd fis Mawrth 2018), mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu Chwarae Cymru trwy Grant Polisi Strategol Chwarae Cymru i ddarparu ystod o gefnogaeth strategol i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill.

Mae ein gwaith yn cynnwys:

- **Polisi**: i weithio gydag unigolion, sefydliadau a rhwydweithiau i hysbysu datblygiad polisi a materion sy'n ymwneud â chwarae plant yng Nghymru
- **Gwasanaeth gwybodaeth**: i hybu gwerth chwarae plant yng Nghymru trwy ddarparu gwybodaeth gyfredol ac amserol i'n rhanddeiliaid
- **Cyngor a chefnogaeth**: i ddarparu gwybodaeth arbenigol ynghylch pob mater sy'n ymwneud â, ac sy'n effeithio ar chwarae plant
- **Datblygu'r gweithlu**: i gyfrannu at ddatblygiad proffesiynol y gweithluoedd chwarae a gwaith chwarae yng Nghymru.

# Crynodeb o gyflawniadau 2017 - 2018

## Cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol

**Rydym yn cydweithio'n agos gydag awdurdodau lleol a'u partneriaid i gefnogi gweithrediad y Dyletswydd Digonolrwydd Chwarae, a osodwyd ar awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru.**

**Mae Chwarae Cymru wedi:**

- Cynnal adolygiad o gynlluniau gweithredu ac adroddiadau cynnydd cyfleoedd chwarae digonol awdurdodau lleol a chyhoeddi adolygiad o gefnogaeth awdurdodau lleol i fannau chwarae hygyrch
- Hwyluso, gyda Llywodraeth Cymru, dri gweithdy rhanbarthol ar gyfer swyddogion arweiniol digonolrwydd chwarae awdurdodau lleol a'u partneriaid
- Trosglwyddo gweithdy digonolrwydd chwarae traws-bolisi ar gyfer swyddogion Llywodraeth Cymru
- Gweithredu fel arweinydd y grŵp arbenigol ar gyfer y dangosydd chwarae egnïol ar gerdyn adroddiad Plant Egnïol Iach Cymru 2018 (PEI-Cymru), wnaeth gynnwys casglu data a chyd-bennu graddau i ddangosyddion
- Cydlynu pedwar cyfarfod o Gyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru (PETC Cymru) er mwyn darparu cyswllt strategol pwysig rhwng SkillsActive, Llywodraeth Cymru a chyflogwyr gwaith chwarae
- Darparu cefnogaeth i ddarparwyr chwarae mynediad agored i gwblhau Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth (SASS) AGC
- Trosglwyddo dau weithdy a darparu arddangosfa wybodaeth yng nghynhadledd Plant yng Nghymru ar iechyd, lles a gwytnwch yn y blynyddoedd cynnar
- Mynychu a chyfrannu'n weithredol at drafodaeth bord gron Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon – Ymchwiliad i weithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc
- Darparu papur briffio i Aelodau'r Cynlluniad i hysbysu dadl yr Aelodau ar Fil chwarae cynhwysol.

*'Rwy'n gwerthfawrogi gwybod bod staff Chwarae Cymru ar gael i gynnig cefnogaeth ac arweiniad pan fo'r awdurdod [lleol] ei angen. Chwarae Cymru yw un o'r prif ffynonellau ar gyfer sicrhau ein bod yn cadw lan gyda materion sy'n ymwneud â chwarae yn yr awdurdod'.*
**Prif Swyddog Byw yn Iach**

*'Rwy'n gwerthfawrogi Chwarae Cymru am fod yn llais dros chwarae plant a phobl ifanc.'*
**Rheolwr Chwarae a Chyfleusterau**

*'Mae Chwarae Cymru wastad yn ceisio dadlau achos chwarae, cynnig cefnogaeth benodol pan fo'i angen, gweithgar iawn yn y sector.'*
**Prif Swyddog Chwarae**



# Ymgysylltu

**131,800 YMWELIAD**

**41,700 DEFNYDDIWR**

## Gwefan

Mae ein gwefan wrth galon Gwasanaeth Gwybodaeth Chwarae Cymru. Caiff ei diweddaru'n rheolaidd gyda gwybodaeth amserol a pherthnasol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn y gynulleidfa sy'n ymweld â'r wefan – gan ddenu, rhwng Ebrill 2017 a Mawrth 2018:

- 131,800 ymweliad (cynnydd o 73% ers y llynedd)
- 41,700 defnyddiwr (cynnydd o 128% ers y llynedd)

*'Gan fy mod yn byw yn yr Unol Daleithiau, a ddim yng Nghymru, rwy'n cael mwy o ddefnydd o'r cyhoeddiadau a'r deunydd cyfeirio a ddarperir yn electronig. Mae eich cyrhaeddiad a'ch dylanwad yn cyrraedd* ***ymhell*** *y tu hwnt i'ch gwlad. Fe newidiais enw ein sefydliad i Play Atlanta o barch i'r gwaith yr ydych yn ei wneud.'*

**Cyfarwyddwr sefydlol**

### Arolwg Gwerthuso Chwarae Cymru

Sut mae cefnogaeth Chwarae Cymru wedi cyfrannu at eich gallu chi / gallu eich sefydliad i sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer chwarae plant?

**TRI ATEB UCHAF**

| | |
|---|---|
| Derbyn y newyddion diweddaraf a gwybodaeth am ddatblygiadau ymchwil | **84%** |
| Cyrchu deunyddiau ac adnoddau trwy gyhoeddiadau Chwarae Cymru | **61%** |
| Cynnydd yn ansawdd y profiadau chwarae ar gyfer y plant | **43%** |

## Y cyfryngau cymdeithasol

Mae'r niferoedd sy'n dilyn cyfryngau cymdeithasol dwyieithog Chwarae Cymru'n tyfu'n ddyddiol ac maent yn denu mwy o gyfranogaeth o blith cynulleidfa amrywiol, eang yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol.

**Facebook**
2,179 yn hoffi
Cynnydd o 49%

**Twitter**
3,954 o ddilynwyr
Cynnydd o 29%

## Y diweddaraf drwy e-bost

Rydym yn sicrhau bod ein cefnogwyr, oddeutu 2,781 o dderbynwyr sydd â diddordeb uniongyrchol mewn chwarae plant, yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ar ffurf e-byst yn rheolaidd sy'n cynnwys newyddion a gwybodaeth gyfredol, yn cynnwys:

- Digwyddiadau sydd ar y gweill
- Y newyddion diweddaraf
- Cyhoeddiadau newydd Chwarae Cymru
- Ymgynghoriadau
- Gwybodaeth polisi.




# Cyhoeddiadau

**Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom ddatblygu a dosbarthu amrywiaeth o gyhoeddiadau i gynorthwyo i hysbysu'r rhai sydd â diddordeb mewn neu gyfrifoldeb am chwarae plant. Mae llawer wedi eu lawrlwytho oddi ar ein gwefan ac maent wedi eu rhannu'n helaeth trwy'r cyfryngau cymdeithasol.**

## Cylchgrawn *Chwarae dros Gymru*

**Fe'i cyhoeddir ddwywaith y flwyddyn a'i ddosbarthu ar ffurf papur ac yn electronig i oddeutu 3,350 o ddarllenwyr.**

Hydref 2017
Mae'r rhifyn **Chwarae: plentyndod iach** yn cynnwys:




- Mae cadw plant yn ddiogel yn golygu gadael iddyn nhw fentro – Dr Mariana Brussoni
- Mentro yn y blynyddoedd cynnar – Yr Athro Ellen Sandseter
- Iechyd Cyhoeddus Cymru i roi'r cychwyn gorau posibl i bob plentyn
- Hawliau chwarae ac iechyd: creu cysylltiadau.

Gwanwyn 2018
Mae'r hanner canfed rhifyn yn nodi ugeinfed penblwydd Chwarae Cymru. Mae'r rhifyn **Plentyndod chwareus** yn cynnwys:




- 20 mlynedd o Chwarae Cymru – uchafbwyntiau staff ac ymddiriedolwyr
- Chwarae yng Nghymru – casglu barn y plant
- Chwarae trwy blentyndod – sut mae plant yn chwarae ar wahanol oedrannau
- Plentyndod yn llawn chwarae – myfyrdodau rhieni ar chwarae eu plant.

## Pecynnau cymorth

***Adnoddau ar gyfer chwarae – darparu rhannau rhydd i gefnogi chwarae plant*** – mae'n cefnogi oedolion yn y sectorau chwarae, blynyddoedd cynnar ac addysg i ddarparu chwarae rhannau rhydd yn eu lleoliadau. Mae'n cynnwys enghreifftiau a dyfyniadau o leoliadau sy'n defnyddio rhannau rhydd fel rhan o'u darpariaeth ar gyfer chwarae.

***Creu mannau chwarae hygyrch*** – mae'n cynnig gwybodaeth i helpu i ddeall a mynd i'r afael â materion sy'n destun pryder ac mae'n cynnwys templedi ac offer cam-wrth-gam, ymarferol ar gyfer cyflawni gwaith sy'n gysylltiedig â chwalu rhwystrau sy'n wynebu plant anabl a'u teuluoedd wrth gael mynediad i fannau chwarae.

## Taflenni gwybodaeth

***Mathau chwarae*** – mae'n archwilio'r 16 math chwarae – gan gynnwys chwarae creadigol, chwarae gwyllt, chwarae dwfn a chwarae cymdeithasol. Mae hefyd yn cynnwys cymhariaethau rhwng rhai o'r mathau chwarae.

***Chwarae, gwaith chwarae a bwyd*** – mae'n archwilio'r agenda iechyd gyfredol, chwarae ac iechyd, sut y gellir darparu bwyd mewn lleoliad gwaith chwarae, yn ogystal â gwerthoedd ac agweddau tuag at fwyd.

***Chwarae a thechnoleg ddigidol*** – mae'n bwrw golwg feirniadol ar ddefnydd plant a phobl ifanc o ffonau symudol a dyfeisiau symudol eraill, gan ganolbwyntio ar chwarae.

## Awgrymiadau anhygoel

Fe gyhoeddom ddwy daflen awgrymiadau anhygoel ar gyfer gweithwyr chwarae a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda phlant: *Datblygiad Proffesiynol Parhaus* ac *Amser sgrin a chwarae digidol*.

## Ffocws ar chwarae

Fe gyhoeddom dri rhifyn, gyda phob un wedi ei anelu at gynulleidfa broffesiynol benodol: rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, cynghorau tref a chymuned a gweithwyr proffesiynol iechyd y cyhoedd.

# Gweithwyr proffesiynol hyddysg




Mae Llywodraeth Cymru'n diffinio'r gweithlu chwarae fel 'unrhyw un cyflogedig y mae ei rôl yn effeithio ar blant yn chwarae – y bobl hynny allai un ai hwyluso eu chwarae'n uniongyrchol, dylunio ar gyfer chwarae, neu'r rheini sydd a'r pŵer i roi caniatâd i blant chwarae, neu beidio' (*Cymru, gwlad lle mae cyfle i chwarae*, 2014).

Mae'r gweithlu chwarae'n cynnwys gweithwyr chwarae ond mae hefyd yn cynnwys ystod eang iawn o weithwyr proffesiynol eraill o ysgolion, adrannau cynllunio, priffyrdd a thrafnidiaeth, iechyd a diogelwch a gofal plant, yn ogystal â grwpiau gwirfoddol a chymunedol, cynghorau tref a chymuned ac aelodau etholedig.

**Mae Chwarae Cymru wedi ymgymryd ag amrywiaeth eang o weithgarwch er mwyn sicrhau bod y gweithlu chwarae'n cael cyfle i gryfhau eu dealltwriaeth o'u rôl wrth sicrhau bod plant yn cael mwy a mwy o gyfleoedd i chwarae.**

## Trosglwyddo cymwysterau gwaith chwarae

Mae galw cynyddol, parhaus am gymwysterau gwaith chwarae gyda lleoliadau gofal plant a sectorau eraill hefyd yn sylweddoli gwerth deall agwedd gwaith chwarae. Mae'r Dyfarniad Lefel 2 mewn Ymarfer Gwaith Chwarae (L2APP) yn profi i fod yn gymhwyster trawsnewidiol gyda dysgwyr yn dod o gefndiroedd gwaith ieuenctid, datblygu chwarae, dysgu a datblygu cymunedol.

Rydym wedi gweithio gydag Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales i ddynodi ariannu ar gyfer trosglwyddiad cynaliadwy cymwysterau gwaith chwarae. Yn ystod 2017/18, mae'r dysgwyr canlynol wedi cwblhau cymwysterau gwaith chwarae: $P^3$ – 19, L2APP – 162, MAHPS – 53.

Rydym hefyd wedi dechrau ar y gwaith paratoadol ar gyfer cynnal adolygiad o gymwysterau Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith ($P^3$) fydd yn cynnig llwybr cynnydd mwy cydlynol ar gyfer gweithwyr chwarae i gymhwyso i weithio.

*'Roedd y cwrs yn wych ac wedi ei drosglwyddo'n dda – dwi wedi argymell y cwrs i eraill oherwydd ei fod yn grêt.'* **Dysgwr L2APP**

*'Fe ddes i mewn ddim yn credu y byddwn yn dysgu llawer mwy nag oeddwn yn ei wybod eisoes o fy mhrofiad blaenorol. Rwyf yn gadael wedi dysgu cryn dipyn am weithio mewn cynllun chwarae ac am hawliau / deddfwriaeth penodol nad oeddwn yn ei wybod o'r blaen. Cwrs buddiol iawn i mi ac rwy'n credu y bydd yn fy helpu mewn swyddi eraill i'r dyfodol yng Nghymru.'* **Dysgwr L2APP**

## Dyfarniad mewn Trosglwyddo Hyfforddiant Gwaith Chwarae Dynamig

Rydym wedi gweithio gydag AOC i ddatblygu Dyfarniad Lefel 3 Agored Cymru mewn Trosglwyddo Hyfforddiant Gwaith Chwarae Dynamig (ADDaPT). Ariannodd Chwarae Cymru'r gwaith yma trwy gytundeb Llywodraeth Cymru, er mwyn darparu safon ar gyfer hyfforddwyr sy'n trosglwyddo L2APP, MAHPS a $P^3$ trwy ein partneriaeth gydag AOC.

Mae'r cwrs hwn yn darparu ffordd fwy cynaliadwy ar gyfer cynyddu sgiliau tiwtoriaid gwaith chwarae ac i ddarparwyr hyfforddiant eraill yng Nghymru sydd am gynyddu sgiliau eu tiwtoriaid gwaith chwarae.

Trosglwyddwyd fersiwn beilot o ADDaPT i wyth o ddysgwyr – pump hyfforddwr a thri darpar-hyfforddwr, yn cynnwys un tiwtor dwyieithog, fydd yn cynorthwyo i adeiladu'r seilwaith ar gyfer hyfforddiant gwaith chwarae yng Nghymru.

*'Cwrs rhagorol, rhyngweithiol dros ben, llawer o dechnegau a strategaethau newydd.'* **Dysgwr ADDaPT**

## Newidiadau i gymwysterau gofal plant

Yn dilyn yr adolygiad o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant a gynhaliwyd gan Gymwysterau Cymru, mae Chwarae Cymru wedi parhau i ymwneud â datblygiad y gyfres newydd o gymwysterau. Tra na fydd y rhain yn disodli'r angen i staff sy'n gweithio ym maes gofal plant tu allan i'r ysgol a lleoliadau mynediad agored feddu ar gymwysterau gwaith chwarae, mae ffocws o'r newydd ar bwysigrwydd chwarae o fewn gofal plant a'i effaith ar ddysg a datblygiad. Mae Chwarae Cymru wedi darparu cyngor arbenigol i Ofal Cymdeithasol Cymru ac i'r consortiwm sy'n datblygu'r cymwysterau newydd.

## Digwyddiadau

Trwy gydol y flwyddyn fe wnaethom gefnogi datblygiad, trefnu a chynnal nifer o gynadleddau, seminarau a chyfleoedd DPP ar gyfer y sector chwarae a gwaith chwarae ehangach, gan gynnwys:

- **Ysbryd 2017: Plentyndod Iach** (Caerdydd) – hysbyswyd 104 o gyfranogwyr gan areithiau rhyngwladol, ysbrydoledig gan Mariana Brussoni ac Ellen Sandseter a chymerodd bawb ran mewn gweithdai ar bynciau'n cynnwys chwarae a thechnoleg ddigidol, chwarae ac iechyd y cyhoedd, gwaith chwarae mewn ysgolion ac adeiladu strwythurau chwarae.

  *'Digwyddiad gwych, wedi ei drefnu'n dda, adnoddau rhagorol oddi wrth Chwarae Cymru – cefnogol a chroesawus.'*

- **Fforwm Gweithwyr Chwarae 2017** (Aberhonddu) – mynychodd 48 o gyfranogwyr y digwyddiad deuddydd yma sy'n rhoi cyfle i staff o feysydd chwarae antur a phrosiectau chwarae rannu arfer dda a dysgu a datblygu sgiliau ymarferol i gefnogi plant sy'n chwarae.

  *'Dyma fy nhro cyntaf. Roeddwn wrth fy modd. Rydych yn gwneud gwaith gwych, daliwch ati.'*

- **Gweithdai** – trosglwyddo amrywiol weithdai'n cynnwys: hyfforddiant 'Chwarae gyda'r elfennau' ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, hyfforddiant 'Beth yw chwarae?' ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chyngor Dinas Caerdydd.

  *'Fel rhan o'n cynllun ar gyfer sefydlu gwaith atal fel busnes craidd, roedd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn gyffrous iawn i fynychu hyfforddiant "Mud and Sparks". Mwynhaodd staff fynychodd yr hyfforddiant, weithdy deuddydd bywiog, hwyliog wnaeth beri iddynt feddwl.'*

- **Bywyd Ysgol 2017** (Blaenau Gwent) – fe weithiom mewn partneriaeth gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i drosglwyddo cynhadledd wedi ei hanelu at ysgolion a'u partneriaid. Roedd y ffocws ar wella amodau ar gyfer chwarae, yn ystod ac yn ogystal â'r tu allan i'r diwrnod addysgu mewn ysgolion. Fe ddenodd 65 o gynrychiolwyr.

  *'Llawn gwybodaeth, diddorol iawn.'*

- **Cynadleddau chwarae ac iechyd cyhoeddus** (gogledd Cymru a de-ddwyrain Cymru ) – fe weithiom mewn partneriaeth gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i drosglwyddo'r ddwy gynhadledd. Wedi eu mynychu gan dros 100 o gyfranogwyr, canolbwyntiodd y digwyddiadau rhanbarthol hyn ar sut y mae gallu plant i gael amser a lle i chwarae yn fater iechyd cyhoeddus allweddol. Treuliodd cyfranogwyr y dydd yn ystyried beth allan nhw, fel ymarferwyr iechyd, ei wneud i gefnogi'r agenda hon.

  *'Cynnwys a throsglwyddiad gwych – cydbwysedd da o lais y cyfranogwyr a thrafodaethau wedi eu cyfarwyddo gan y siaradwyr.'*

## Digwyddiadau rhyngwladol

**Cynhadledd fyd-eang yr International Play Association 2017** – yn y gynhadledd teirblwyddol yn Calgary, Canada, fe wnaethom drosglwyddo gweithdy diwrnod llawn cyn y gynhadledd yn hyrwyddo cymwysterau gwaith chwarae Cymreig. Fe wnaethom hefyd drosglwyddo amrywiol weithdai yn ystod y gynhadledd yn ymwneud â hyfforddiant gwaith chwarae, adnoddau mynediad i chwarae mewn argyfyngau, yr hawl i chwarae yn yr ysgol ac asesu risg dynamig.

**Supporting Vulnerable Children and Young People in an Uncertain World** – fe wnaethom ddarparu amrywiol weithdai gyda phartneriaid ar yr hawl i chwarae yng nghynhadledd yr International School Psychology Association ym Manceinion.




## Ymholiadau gan y cyhoedd

Yn ogystal â'r gronfa eang o wybodaeth a ddarperir trwy ein gwefan, rydym yn amcangyfrif inni dderbyn ac ymateb i tua 1000 o ymholiadau dros y ffôn, drwy gyfryngau cymdeithasol a thrwy e-bost oddi wrth rieni, aelodau etholedig, dysgwyr, ysgolion a mudiadau bychain yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r ymholiadau y gwnaethom ymateb iddynt trwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chyfeirio'n cynnwys:

- Cymwysterau addas ar gyfer lleoedd chwarae a gofal plant sydd wedi eu cofrestru â AGC
- Cyngor ariannu ar gyfer prynu offer chwarae a datblygu ardaloedd chwarae mewn cymunedau
- Cymwysterau perthnasol sy'n ofynnol ar gyfer rhedeg cynllun chwarae
- Dysgwyr sydd am ymgymryd â hyfforddiant gwaith chwarae, a chymwysterau Lefel 3 yn benodol
- Ymholiadau ymchwil oddi wrth fyfyrwyr astudiaethau plentyndod a gwaith chwarae
- Cyngor ariannu ar gyfer darpariaeth gwaith chwarae
- Cefnogaeth ar gyfer achub caeau chwarae ysgolion
- Cyngor ar lain o dir neu ofod chwarae (fel arfer oddi wrth gymdeithasau tai)
- Hysbysebu swyddi, yn arbennig cynlluniau chwarae haf
- Llythyrau o gefnogaeth i gymunedau sy'n ymgyrchu am ardaloedd chwarae ac ar gyfer ceisiadau ariannu.

**Adolygir yr ymholiadau hyn yn rheolaidd a'u defnyddio i hysbysu ychwanegu gwybodaeth newydd i'n gwefan.**

## Cydweithredu'n lleol ac yn genedlaethol

**Rhaglen Datblygiad Proffesiynol Sir y Fflint**

Fe weithiom mewn partneriaeth â Chyngor Sir y Fflint i drosglwyddo Rhaglen Datblygiad Proffesiynol gyda Wendy Russell (Prifysgol Swydd Gaerloyw). Fe wnaeth ddwyn ynghyd nifer o randdeiliaid o'r awdurdod lleol a'r drydedd sector i ystyried sut mae eu meysydd gwaith yn ymateb i flaenoriaethau yn y cynllun gweithredu digonolrwydd cyfleoedd chwarae a chyfrannu at ddyletswydd statudol yr awdurdod lleol i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol.

*'Fe wnaeth y gweithdai helpu'r grŵp i fyfyrio ar a newid eu barn am chwarae plant. Mae wedi helpu i adfywio diddordeb mewn chwarae'n lleol ac mae awydd i weithio'n fwy cydweithredol er mwyn cefnogi chwarae yn ein hawdurdod lleol.'*

**Cyfranogwr gweithdy**

**Cefnogi chwarae stryd yng Nghaerdydd**

Mewn partneriaeth gyda Playing Out, fe wnaethom gefnogi chwarae stryd dan arweiniad trigolion mewn tair cymuned yng Nghaerdydd i gau eu strydoedd i draffig trwodd, gan eu hagor ar gyfer chwarae am gyfnodau byr fel rhan o Diwrnod Chwarae. Parhaodd y sesiynau am nifer o fisoedd er mwyn asesu ymarferoldeb agwedd dinas gyfan.

*'Heb gefnogaeth a chyfoeth gwybodaeth Chwarae Cymru, fyddai'r sesiynau hyn fyth wedi gallu cychwyn. Wedi siarad gyda theuluoedd yn y stryd, roedd y neges yn syml – roedd teuluoedd yn pryderu ynghylch diogelwch o amgylch ceir fyddai'n defnyddio'r stryd yn rheolaidd fel llwybr tarw. Ein gobaith yn y tymor hir yw y bydd plant a theuluoedd yn tyfu'n fwy hyderus wrth ddefnyddio'r stryd ac y bydd plant yn tyfu'n fwy ymwybodol wrth ddefnyddio'r stryd.'*

**Rhiant lleol ac ysgogydd chwarae stryd**

### Llyfr stori hawl i chwarae

Fe wnaeth ariannu oddi wrth raglen Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol alluogi Chwarae Cymru i ddatblygu llyfr stori am hawl y plentyn i chwarae. Fe weithiom gyda storïwr, cartwnydd, plant a rhieni yn Ysgol Gynradd Mount Stuart i ysgrifennu *Hwyl yn y dwnjwn*. Mae'r llyfr ar gyfer plant a rhieni, gan alluogi plant i fod yn eiriolwyr, fel deiliaid hawliau, a rhieni i eiriol dros chwarae'n lleol.

*'Mae'r plant ifanc yma wedi ennill llawer o'r prosiect, roedden nhw'n neidio'n llawn cyffro pan oedd hi'n ddiwrnod prosiect dweud stori. Bydd y profiad unigryw yma'n aros gyda nhw fel atgof arbennig o'r hyn y gall dysgu fod a bydd y llyfr yn gofrodd wych y byddant yn ei drysori a, gobeithio, yn ei rannu gyda'u plant eu hunain.'*

**Pennaeth, Ysgol Gynradd Mount Stuart**

### Iechyd Cyhoeddus Cymru

Yn ystod haf 2017, fe weithiom mewn partneriaeth gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ar eu rhaglen *Pob Plentyn Cymru*. Dynododd Iechyd Cyhoeddus Cymru ddeg cam seiliedig ar dystiolaeth i helpu plant yn y blynyddoedd cynnar gynnal pwysau iach, y mae'n ei hyrwyddo o dan *Pob Plentyn Cymru*. Mae cam chwech yn canolbwyntio ar chwarae'r tu allan, gyda'r uchelgais y rhoddir cyfle i bob plentyn chwarae'r tu allan bob dydd. Er mwyn cefnogi'r rhaglen fe gynhyrchom gyfres o gyhoeddiadau a blogiau newydd.

Yn dilyn gweithio partneriaeth llwyddiannus er mwyn helpu i lansio *Pob Plentyn Cymru*, ac i drosglwyddo symposiwm ar y cyd ar chwarae a risg, dynodwyd nifer o gyfleoedd i harneisio arbenigedd Chwarae Cymru i drosglwyddo camau gweithredu, gan roi mwy o ffocws penodol ar chwarae yn yr awyr agored yn y blynyddoedd cynnar.

*'Ar ddechrau 2018, gweithiodd Iechyd Cyhoeddus Cymru'n agos gyda Chwarae Cymru i ddatblygu Cyd-ddatganiad ar Chwarae. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chwarae Cymru yn cydnabod buddiannau iechyd chwarae ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle i chwarae'r tu allan bob dydd. Mae buddiannau amlwg i blant a phobl ifanc o chwarae yn yr awyr agored, ar gyfer eu llesiant meddyliol yn ogystal ag iechyd corfforol tymor byr a thymor hir. Mae Chwarae Cymru'n deall gweithio partneriaeth ac mae eu hagwedd yn un hyblyg.'*

**Iechyd Cyhoeddus Cymru**

### Rhaglen Gwirfoddolwyr Dadansoddol

Trwy'r Rhaglen Gwirfoddolwyr Dadansoddol, fe weithiom gyda dadansoddwyr o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru i adolygu arolygon digonolrwydd cyfleoedd chwarae awdurdodau lleol gyda phlant a chynhyrchu data Cymru-gyfan.

*'Rydw i wir wedi mwynhau gweithio gyda Chwarae Cymru ar bwnc diddorol mynediad plant i chwarae a'u profiadau ohono. Mae cydweithio ar y data Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae wedi ehangu fy mhrofiad o'r heriau sy'n gysylltiedig â chasglu data o wahanol ffynonellau ar gyfer un allbwn. Roedd yn brofiad gwych a chefais fy annog gan y diddordeb oedd gan staff Chwarae Cymru yn y gwaith yr oeddwn yn ei wneud.'*

**Gwirfoddolwr o'r Rhaglen Ddadansoddol o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol**

### Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal Conwy

Rydym wedi bod yn gweithio gyda Chefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy (CVSC) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar drosglwyddo pecyn hyfforddiant cynhwysfawr wedi ei anelu at ofalwyr maeth, gweithwyr cymdeithasol ac uwch-reolwyr yn y Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal er mwyn rhoi agwedd adran-gyfan ar waith er mwyn sicrhau nad yw plant sy'n derbyn gofal yn cael eu cyfyngu'n ddiangen rhag chwarae a chymryd risg. Mae'r hyfforddiant yma wedi agor dialog o fewn y tîm am bwysigrwydd chwarae plant a sut y gellir ei gefnogi yn y gymuned a'r cartref, o ystyried amodau penodol plant mewn gofal maeth.

*'Hyfforddiant gwirioneddol ddiddorol ac ysgogol wnaeth ganiatáu imi feddwl yn greadigol am chwarae a sut i gynnwys hyn yn fy arfer a gyda gofalwyr maeth yn y cartref.'*

**Gweithiwr Cymdeithasol**

### Diwrnod Chwarae

Dathliad blynyddol y DU o hawl plant i chwarae. Fe'i cydlynir gan Chwarae Cymru, Play England, Play Scotland a PlayBoard Northern Ireland. Rydym yn cynrychioli Cymru ar Grŵp Llywio Diwrnod Chwarae sy'n cydlynu'r ymgyrch flynyddol. Yn Chwarae Cymru rydym yn ystyried Diwrnod Chwarae fel cyfle i gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch pwysigrwydd chwarae plant a'r angen am ddarpariaeth chwarae o safon bob dydd o'r flwyddyn ym mhob ardal o Gymru.

# Partneriaid

Yn ogystal â chefnogi trosglwyddo rhaglenni Llywodraeth Cymru, yn ystod 2017-2018 rydym wedi gweithio mewn partneriaeth / cydweithrediad â'r mudiadau a grwpiau canlynol ar brosiectau penodol:

- Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales
- Agored Cymru
- Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Cymru (CVSC)
- Children's Play Policy Forum
- Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
- Cymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru
- Cymdeithas Tai Cymoedd i'r Arfordir
- Cymwysterau Cymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Cyngor Sir y Fflint
- Early Years Workforce Network
- Education and Training Standards (ETS)
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Grounds for Learning, Scotland
- Grŵp Monitro CCUHP Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Inspiring Scotland
- International Play Association (IPA)
- International Play Association EWNI (Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon)
- Learning through Landscapes
- PETC Cymru
- Petra Publishing (prosiect Caerphilly Parent Network)
- Play England
- Play Safety Forum
- Play Scotland
- PlayBoard Northern Ireland
- Playday
- Prifysgol Abertawe
- Prifysgol Caerdydd
- Prifysgol Manceinion
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd
- Prifysgol Swydd Gaerloyw
- Prosiect Achubwyr Lle Gwag
- Pwyllgor Charity Comms Wales
- Qualifications Standards Advisory Group (QSAG)
- Rhwydwaith Chwarae Strategol Cymru
- Scottish Qualifications Authority (SQA)
- Sioned Williams Landscape Design
- SkillsActive
- Tîm Datblygu Chwarae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Ysgol Gynradd Mount Stuart.




# Adolygiad ariannol – crynodeb

**Adroddiadau incwm a gwariant Chwarae Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol yn gorffen Mawrth 2018.**

## Cyfanswm incwm £459,021

| | |
|---|---|
| Grant Llywodraeth Cymru | £390,000 |
| Incwm arall | £44,712 |
| Hyfforddi'r gweithlu | £5,910 |
| Cynhadledd Ysbryd 2017 | £7,648 |
| Aelodaeth | £2,878 |
| Nwyddau | £7,665 |
| Incwm o fuddsoddiadau | £178 |
| Breindaliadau | £30 |



## Cyfanswm gwariant £428,172

| | |
|---|---|
| Polisi chwarae, cymorth ac eiriolaeth | £133,479 |
| Datblygu'r gweithlu | £117,334 |
| Gwasanaeth Gwybodaeth | £142,764 |
| Rheolaeth | £34,595 |



# Aelodaeth

Mae Chwarae Cymru yn fudiad i aelodau.

Gofynnir i bob aelod sy'n ymuno, i ymrwymo i'r Egwyddorion Gwaith Chwarae a Pholisi Chwarae Llywodraeth Cymru.

Yn 2017-2018 roedd gennym 92 o aelodau, yn cynnwys:

- Awdurdodau lleol
- Cynghorau tref a chymuned
- Prifysgolion a cholegau
- Cymdeithasau chwarae lleol a rhanbarthol
- Clybiau ar ôl ysgol, clybiau brecwast, cynlluniau chwarae gwyliau'r ysgol a meithrinfeydd
- Cwmnïau masnachol
- Mudiadau cenedlaethol yng Nghymru ac yn rhyngwladol
- Unigolion fel gweithwyr chwarae, hyfforddwyr gwaith chwarae, athrawon a darlithwyr.

Mae **aelodaeth gyswllt** yn agored i bob mudiad ac unigolyn sy'n byw yng Nghymru.

Mae **aelodaeth gyswllt ryngwladol** yn agored i unrhyw fudiad neu unigolyn sy'n byw neu'n gweithio'r tu allan i Gymru hoffai gefnogi gwaith Chwarae Cymru. Ceir cyfyngiadau ar y buddiannau aelodaeth oherwydd ein bod fel elusen wedi ein cofrestru i weithio er budd trigolion Cymru.

Yn 2017-2018 fe wnaeth ein haelodau elwa trwy dderbyn:

- Hysbysiadau ynghylch ymgynghoriadau allweddol a thrwy gyfrannu eu mewnbwn hwy i'n hymatebion
- Gwybodaeth reolaidd am ddatblygiadau ac ymchwil newydd
- Pris gostyngedig i gyfranogwyr yn ein digwyddiadau
- Cludiant am ddim wrth brynu ein cyhoeddiadau.



*'Mae aelodaeth o Chwarae Cymru'n bwysig i mi oherwydd bod y wybodaeth a geir yn y cyhoeddiadau ac ar y wefan yn cynnwys y ffeithiau diweddaraf a mwyaf perthnasol i'n mudiad ni.*

*Mae Chwarae Cymru'n darparu gwybodaeth imi am yr ymchwil diweddaraf, meddyliau a syniadau newydd ac mae bob amser yn pwysleisio pwysigrwydd chwarae ym mywydau plant. Mae cael cefnogaeth ar gyfer maes gwaith sydd mor bwysig, ond eto sy'n cael ei danariannu gymaint, yn gysurol ac yn galonogol iawn ac, yn bwysig iawn, mae statws chwarae plant yng Nghymru'n rhoi gobaith inni ar gyfer y dyfodol.'*

**Ymgynghorydd Gwaith Chwarae**

*'Rydym yn bendant wedi elwa o ddefnyddio'r llyfrgell gyfeirio a'r adnoddau gwych sydd i'w cael yno. Hefyd, rwyf wedi cysylltu gyda Chwarae Cymru am nifer o wahanol resymau, i ofyn am gyngor a chefnogaeth ar waith chwarae ac mae'r ymateb wedi bod yn werthfawr. Mae Chwarae Cymru'n eiriolwyr gwych dros chwarae!'*

**Hyfforddwr Gwaith Chwarae**

| | |
|---|---|
| **Unigol** | **£10** |
| **Sefydliadau** (un, neu lai, o aelodau llawn amser o staff) | **£25** |
| **Rhyngwladol** (y tu allan i Gymru) | **£25** |
| **Sefydliadau** (mwy nag un aelod llawn amser o staff) | **£50** |
| **Masnachol / preifat** | **£75** |
| **Awdurdod lleol** | **£100** |

*‘Rydym yn gwerthfawrogi bod yn rhan o’r mudiad chwarae, a’r cysylltiad gydag unigolion a mudiadau eraill a derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau a’r ymchwil ddiweddaraf yn y sector chwarae.’*

**Cyfarwyddwraig, mudiad chwarae tu allan**

*‘Rwy’n hoffi teimlo’n rhan o gymuned gwaith chwarae ehangach ac, yn benodol, rwy’n falch i gefnogi’r sefydliad Cymreig arloesol yma. Mae’n ddefnyddiol i gadarnhau fy mhroffesiynoldeb wrth siarad gyda chyflogwyr a sefydliadau, mae’n gysur gwybod bod cyngor ar gael os bydda’ i ei angen.’*

**Rheolwr Cyfathrebiadau, maes chwarae antur**



# Cyflawniadau: 1998 - 2018

**Ers 1998 mae Chwarae Cymru wedi eiriol ac ymgyrchu'n llwyddiannus dros chwarae, ac wedi annog a chefnogi Llywodraeth Cymru i sicrhau ymrwymiadau cwbl arloesol ar ran plant.**

## Rhagor o gyllid ar gyfer chwarae plant

- Yn 2000, yn dilyn lobïo gan Chwarae Cymru, dosbarthodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Grant Chwarae o £1 filiwn i greu darpariaeth chwarae mynediad agored wedi ei staffio. Er mai'r bwriad yn wreiddiol oedd i'r ariannu yma fod ar gael am flwyddyn yn unig, parhaodd y grant fel elfen o gyllid grant gwahanol yn y blynyddoedd ers hynny.
- Yn 2006, derbyniodd Chwarae Cymru gytundeb tair blynedd ar gyfer helpu i drosglwyddo rhaglen Chwarae Plant £13 miliwn Cronfa'r Loteri FAWR, i gefnogi cynyddu cynhwysedd a phrosiectau chwarae strategol yng Nghymru.
- Yn ddiweddarach, cefnogodd Chwarae Cymru awdurdodau lleol i wneud y defnydd gorau o ariannu oedd ar gael trwy'r Grant Cynyddu Cyfleoedd i Chwarae yn 2014, 2015, 2017 a 2018.

## Cydnabyddiaeth genedlaethol gynyddol i chwarae

- Cynorthwyodd Chwarae Cymru Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu *Polisi Chwarae* 2002 – y cyntaf yn y byd. Yn ogystal, cynorthwyodd Chwarae Cymru gyda'r gwaith o ddatblygu *Cynllun Cyflawni Polisi Chwarae* Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006).
- Yn 2012, deddfodd Llywodraeth Cymru ar gyfer chwarae plant. Mae cyfleoedd chwarae wedi eu cynnwys ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Mae hwn yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i 'asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yn eu hardaloedd, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol'. Trwy ymateb i ymgynghoriadau, cynorthwyodd ein haelodau i sicrhau bod pwysigrwydd chwarae â man amlwg yn y ddeddfwriaeth Gymreig arloesol yma. Elfen arloesol arall – mae'n bosibl mai dyma'r datblygiad pwysicaf i ddigwydd ar gyfer chwarae plant yng Nghymru.
- Yn 2014 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru, *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae*, cyfarwyddyd statudol ar asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol. Mae Chwarae Cymru wedi parhau i ddarparu cefnogaeth a chyngor i bob rhanddeiliad o ran gweithredu'r cyfarwyddyd yma.
- Yn 2017 gweithiodd Chwarae Cymru'n agos gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru ar raglen *Pob Plentyn Cymru* sy'n cydnabod pwysigrwydd allweddol chwarae i iechyd corfforol ac emosiynol plant.

## Gweithlu dynamig

- Datblygodd Chwarae Cymru *Yr Hawl Cyntaf… fframwaith ar gyfer asesu ansawdd gwaith chwarae* ac *Yr Hawl Cyntaf – Prosesau Dymunol*. Mae'r cyhoeddiadau hyn yn anelu i gefnogi pobl sy'n gweithio gyda phlant i ddadansoddi amgylcheddau chwarae ac mae'n cynnig fframwaith ar gyfer asesu ansawdd yr hyn y darperir ar ei gyfer, a'i brofi gan blant.
- Arweiniodd Chwarae Cymru adolygiad y DU o'r Gwerthoedd a Rhagdybiaethau Gwaith Chwarae. Yn dilyn ymgynghoriad, mabwysiadodd y sector yr Egwyddorion Gwaith Chwarae ac fe'u cymeradwywyd gan SkillsActive, y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Gwaith Chwarae, yn 2005. Bellach, mae'r Egwyddorion Gwaith Chwarae'n ffurfio sail i'r safonau galwedigaethol ar gyfer gwaith chwarae yn y DU.
- Er mwyn datblygu arfer gwaith chwarae cyfoes, gweithiodd Chwarae Cymru gyda'r Scottish Qualifications Authority (SQA) i gynnig cymwysterau Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith ($P^3$) ar Lefel 2 a 3. Er mwyn cefnogi'r hyfforddiant arloesol yma, fe wnaethom gynhyrchu deunyddiau dysgu ysbrydoledig.
- Rhwng Chwarae Cymru, Llywodraeth Cymru ac ariannu Ewropeaidd, rydym wedi buddsoddi dros £1.5 miliwn yn y gwaith o ddatblygu, peilota a throsglwyddo Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith ($P^3$).



- Mae Chwarae Cymru wedi parhau i gydweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod hyfforddiant a chymwysterau gwaith chwarae'n ateb anghenion y gweithlu. Mae'r gwaith yma wedi cynnwys datblygu dau gymhwyster sydd wedi eu hanelu at y bobl hynny sy'n gweithio mewn cynlluniau chwarae dros y gwyliau – Dyfarniad Lefel 2 mewn Arfer Gwaith Chwarae (L2APP) a Dyfarniad Lefel 3 mewn Rheoli Cynlluniau Chwarae'n Ystod Gwyliau'r Ysgol (MAHPS) (Agored Cymru).

**Golyga hyn i gyd fod y bobl sy'n gweithio gyda'n plant wedi derbyn yr hyfforddiant gorau posibl.**

## Gwell ymwybyddiaeth o chwarae yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol

- Trwy'r wefan a thrwy gyhoeddi e-fwletinau rheolaidd, cylchgronau, taflenni gwybodaeth, pecynnau cymorth, llyfrau a phosteri, mae Chwarae Cymru'n hyrwyddo chwarae plant yn eang iawn. Caiff ein gwefan ei hystyried yn rhyngwladol fel un o'r rhai mwyaf effeithlon wrth gyflwyno gwybodaeth amserol am chwarae plant.
- Mae Chwarae Cymru'n darparu hyfforddiant, seminarau a chynadleddau ar gyfer pawb sy'n darparu a chefnogi chwarae plant – gan gynnwys Cynhadledd Fyd-eang 2011 yr International Play Association (IPA).
- Derbyniodd Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones AC, Wobr Hawl i Chwarae'r IPA ar ran pob un yng Nghymru sy'n ymdrechu i wneud Cymru'n wlad chwarae-gyfeillgar. Cymru yw'r wlad gyntaf i dderbyn y wobr arobryn yma. Arweiniodd hyn at weld Chwarae Cymru'n sefydlu ymgyrch *Cymru – Gwlad Chwarae-Gyfeillgar*.
- Cefnogodd Chwarae Cymru waith yr IPA gyda Phwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i ddrafftio a mabwysiadu Sylw Cyffredinol sy'n egluro i lywodraethau ar draws y byd ystyr a phwysigrwydd Erthygl 31 o'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn. Gweithiodd Chwarae Cymru gyda phlant Cymru i ddatblygu adnoddau i hyrwyddo'r hawliau a amlinellir yn Erthygl 31 o GCUHP ar ran yr IPA i gyd-fynd â lansiad y Sylw Cyffredinol.
- Gweithiodd Chwarae Cymru gyda Phrifysgol Swydd Gaerloyw i gynhyrchu dau adroddiad sy'n cyflwyno canfyddiadau dau brosiect ymchwil graddfa fechan, y cyntaf yn archwilio sut y bu i awdurdodau lleol ymateb i gyflwyno'r ddyletswydd i asesu cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant, a'r ail yn brosiect dilynol yn edrych yn ôl dros y flwyddyn flaenorol ac ymlaen at gychwyn ail ran y Ddyletswydd, i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant.

**Mae hyn i gyd wedi cyfrannu at weld mwy o blant yn cael amser, rhyddid a chaniatâd i chwarae. Mae gwaith i'w wneud o hyd i sicrhau bod Cymru'n wlad ble y caiff chwarae ei barchu am ei bwysigrwydd allweddol i blentyndod – ychwanegwch eich llais er mwyn ein helpu i wneud mwy.**



# Cynlluniau ar gyfer y dyfodol: 2018 - 2019

**Bydd Chwarae Cymru'n parhau i weithio i hybu chwarae plant, i weithredu fel eiriolwr dros blant a'u hanghenion chwarae.**

**Tan fis Mawrth 2020, bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu Chwarae Cymru trwy Grant Polisi Strategol Chwarae Cymru i ddarparu ystod o gefnogaeth strategol i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill.**

## Rydym, yn benodol, yn rhagweld y byddwn yn ymgymryd â'r canlynol:

- Datblygu, lansio a chynnal gwefan newydd *Plentyndod Chwareus* sydd wedi ei hanelu at rieni, gofalwyr a grwpiau cymunedol
- Parhau i drosglwyddo gwasanaeth cyfathrebiadau sydd wedi ei anelu at ein etholaeth eang trwy ddarparu cyhoeddiadau â ffocws, e-byst uniongyrchol, gwefan gyda'r wybodaeth ddiweddaraf ac ymgysylltu trwy gyfryngau cymdeithasol
- Cyfrannu at a hysbysu eiriolaeth leol, cenedlaethol a rhyngwladol trwy waith prosiect ac aelodaeth o bwyllgorau a grwpiau
- Cefnogi awdurdodau lleol a mudiadau trydydd sector Cymru i gymryd rhan ac ymateb i bolisi cenedlaethol trwy ddigwyddiadau, hwyluso rhwydweithiau a chyngor
- Gweithredu a monitro ein cynllun datblygu'r gweithlu, *Gweithlu chwarae-gyfeillgar i Gymru*
- Adolygu ac ail-ysgrifennu Cymwysterau Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith (P$^3$) er mwyn darparu llwybr cymhwyster mwy cymesur a chyraeddadwy ar gyfer gweithwyr chwarae yng Nghymru a thu hwnt.

I sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn cael eu datblygu a'u trosglwyddo mor effeithlon â phosibl byddwn yn:

- Gweithredu cynllun hunan-asesu ansawdd ar draws y mudiad ac yn gweithio tuag at achredu
- Datblygu cynllun busnes Chwarae Cymru
- Adolygu, mireinio a gweithredu ein cynllun cynaliadwyedd.

**Ceir manylion y targedau uchod yn strategaethau diwygiedig pum mlynedd a 10 mlynedd Chwarae Cymru. Bydd gweithgareddau codi arian eraill yn ein galluogi i barhau i eiriol dros hawl plant i chwarae.**

# Bwrdd Ymddiriedolwyr Chwarae Cymru – llywodraethu

Mae gennym Fwrdd Ymddiriedolwyr sy'n goruchwylio rhedeg Chwarae Cymru er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein amcanion mewn modd effeithiol ac effeithlon yn unol â'r gyfraith. Ceir hefyd nifer o Sylwedyddion i'r Bwrdd sy'n cefnogi'r Ymddiriedolwyr ond sydd yn ddibleidlais. Caiff ein Ymddiriedolwyr eu hethol gan ein haelodau, neu eu cyfethol i gynrychioli maes arbenigedd penodol.

(fel o fis Mawrth 2018)

## Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

**Dr Anne Crowley**

**Yr Athro David Egan**
Prifysgol Metropolitan Caerdydd

**Helen Hughes**
Stephens and George Charitable Trust

**Malcolm King OBE**

**Yr Athro Ronan Lyons**
Prifysgol Cymru, Abertawe

**John Rose**

**Dr Mike Shooter CBE (Cadeirydd)**
Seiciatrydd Ymgynghorol (wedi ymddeol)

**Keith Towler**

**Yr Athro Elspeth Webb**

## Mudiadau sy'n Sylwedyddion

**Catherine Davies**
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

**Catriona Williams OBE**
Plant yng Nghymru

# Tîm Chwarae Cymru

(fel o fis Mawrth 2018)

**Mike Greenaway**
Cyfarwyddwr

**Martin King-Sheard**
Swyddog Datblygu'r Gweithlu

**Marianne Mannello**
Cyfarwyddwraig Gynorthwyol
(Polisi, Cymorth ac Eiriolaeth)

**Kathy Muse**
Rheolwraig Swyddfa

**Ruth O'Donoghue**
Swyddog Cyllid

**Lowri Roberts**
Cynorthwy-ydd Cyfathrebiadau

**Angharad Wyn Jones**
Rheolwraig Cyfathrebiadau



**www.chwaraecymru.org.uk**

Elusen cofrestredig, rhif 1068926
Cwmni cyfyngedig drwy warant, rhif 3507258
Cofrestrwyd yng Nghymru